

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW
7:30YH 22^{AIN} MAI 2019 YN FESTRI PANDY TUDUR

1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

1.1 Croesawyd pawb gan Clwyd Roberts (CR)

1.2 Presennol: Diane Roberts (DR), Ann Vaughan (AV), R. Emlyn Williams (REW), Gwynfor Davies (GD) & Garffild Lloyd Lewis (GLL)

1.3 Ymddiheuriadau: Einir Williams (EW), Elen H. Edwards (EHE) a Gwyn Williams (GW)

1.4 Absennol: Gwydion Jones (GJ)

Cyn i'r cyfarfod llawn gychwyn, rhoddodd Daisy Devero, PCSO o Lanrwst gyflwyniad byr. Trafododd ei gwaith yn cefnogi'r gymuned ac yn taclo ymddygiad gwrth gymdeithasol.

GLL yn codi ei fod wedi siarad efo Heledd Wyn, PCSO am y digwyddiadau o ladd ŵyn yn Llangernyw'n ddiweddar, dim mwy wedi digwydd ar ôl i gi gael ei roi i lawr. Drwg deimlad yn y gymuned ffermio yn yr ardal yn ddiweddar.

DR yn codi fod trigolion Llangernyw yn cwyno am or-yrru drwy'r pentref. Dywedodd Daisy Devero fod posibl iddynt fonitro'r sefyllfa. Pryder mawr am y ffordd tu allan i'r Ysgol yng nhanol y pentref. Pryder wrth groesi ffordd rhwng Parc Aelas a Glan Collen.

Daisy am ddod i Langernyw efo camera cyflymdra yn ystod yr wythnosau nesaf i hel data fel bod modd wedyn gwneud penderfyniad sut i ymdrin a'r broblem.

2 DATGAN DIDDORDEB

Dim datganiad.

3 COFNODION I'W GWIRO/PWYNTIAU'N CODI - 1^{AF} MAI 2019

EW - gair efo Iona Edwards ynglyn â'r cyfrifon. Gan ei bod ddim yn bresennol, nid oedd modd trafod. GD a DR am baratoi'r cyfrifon rhyngthynt erbyn y pwyllgor nesaf.

9 - Cais i dorri glaswellt cyn priodas, torri tua wythnos o flaen amser torri nesaf beth bynnag, penderfynwyd cytuno i dorri mynwent Gwytherin cyn y briodas.

Trafodwyd sedd wâg y cyngor a gwaith papur hanesyddol y cyngor (gweler 4 isod).

DR yn cymeradwyo'r cofnodion yn gywir.

4 MATERION Y CYNGOR

4.1 Adroddiad y Cadeirydd (Einir Williams):

"Annwyl Gynghorwyr a chyfeillion,

Mae wedi bod yn bleser o'r mwyaf cynrhychioli'r cyngor arbennig yma fel cadeirydd yn ystod y flwyddyn diwethaf. Dwi'n teimlo mor falch ein bod ni wedi llwyddo i gynnal gwaith y cyngor ers dros flwyddyn heb glerc, gyda pob un o'r cynghorwyr selog yn tynnu eu pwysau drwy roi eu cryfderau unigol ar waith.

Bu i mi fynychu cwrs cadeirio yn enw'r Cyngor yn yr Hydref, a chael clywed profiadau mynychwyr oedd yn profi nad oedd pob cyngor yn cyd-dynnu a chydweithio cystal â Chyngor Cymuned Llangernyw.

Caffaeliad mawr oedd cael croesawu Enlli atom fel clerc cofnodion - mae hi wedi tynnu baich sylweddol oddi ar ysgwyddau'r rhai ohonom oedd yn cymeryd y cofnodion yn flaenorol. Mae ei gwaith yn brydlon, cywir a thaclus.

Fyswn i'n hoffi diolch i chi gyd am eich cefnogaeth ar hyd y flwyddyn, ac yn edrych ymlaen at gadeiryddiaeth Clwyd am y flwyddyn nesaf. Diolch o galon i bawb. Cofion, Einir"

DR yn diolch dros y Cyngor i EW am ei gwaith caled dros y flwyddyn.

4.2 Cadarnhau Cadeirydd am y flwyddyn - DR yn cynnig Clwyd Roberts, AV yn eilio. CR yn ategu diolch i EW ac Enlli Vaughan.

4.3 Cadarnhau swyddogaethau Cyngorwyr am y flwyddyn: Is-Gadeirydd – cynnigiodd REW EHE ac eilwyd gan AV.

Is-Bwyllgor Mynwentydd: AV, CR a REW (dim newid)

Is-Bwyllgor Llwybrau: EW, CR a GJ (dim newid)

Is-Bwyllgor Cychlythyr: GD, REW a DR. Trafodwyd nad oes cylchlythyr wedi bod ers i Elwen Owen orffen ei swydd, mae'r cofnodion i gyd i'w cael ar y wê. Cododd CR fod posibl argraffu copiau i drigolion sydd yn gofyn am gopi. Penderfynwyd nad oes angen yr Is-Bwyllgor mwyach.

Pwyllgor y Cwm: CR fel Cadeirydd

Llywodraethwyr Ysgol Bro Cernyw: GW. Gofyn iddo os oedd yn hapus cario ymlaen, os ddim GJ.

Pwyllgor y Ganolfan: CR & EW.

Un Llais: DR a REW

4.4 Hysbysebu Sedd Cyngorydd wag yn ward Llangernyw - fyny yn yr hysbysfwrdd, Lucy Steele yn gadael i'r Cyngor wybod os bydd mwy na 10 person wedi rhoi cais am etholiad, cau 24^{ain} Mai 2019. Trafodwyd fod y cofnodion yn dweud 20^{fed} o Fai, methu symud ymlaen efo hwn yn absenoldeb EW. *Agenda mis nesaf.*

4.5 Gwaith papur hanesyddol y Cyngor – dyddiadau wedi dod gan Elwen Owen nosweithiau y bydd ar gael - 4^{ydd}, 7^{fed}, 20^{fed}, 21^{ain}, 26^{ain} a 27^{ain} o Fehefin neu 3^{ydd}, 4^{ydd}, 5^{ed}, 10^{fed}, 11^{eg}, 17^{eg} a 18 o Orffennaf i fynd trwy'r papurau hanesyddol. Penderfynwyd 7:30yh 27^{ain} o Fehefin a'r 3^{ydd} o Orffennaf yn Festri Pandy Tudur. *CR am ofalu am logi'r Festri.*

DR yn codi ei bod wedi sôn am ofyn wrth Un Llais am help ynglyn â'r uchod. *Cytunwyd fod DR am gysylltu i gael canllawiau/gweld os oes cymorth/canllawiau ar gael. DR am gysylltu âg EW yn gyntaf rhagofn ei bod wedi gwneud yn barod.*

REW yn codi Cwpwrdd y Cyngor yn y Ganolfan yn Llangernyw. Cyngor yn talu am y cwpwrdd. Neb yn siwr beth oedd yn y cwpwrdd. REW am holi Eifion Jones, Gofalydd y Ganolfan os oedd yn gwbod am oriad.

5 CEISIADAU CYNLLUNIO

5.1 Dim wedi dod i'w drafod.

*Cais wedi dod i mewn yn hwyr, cyngorwyr heb gael amser i edrych dros y cais felly ni drafodwyd. *I'w roi ar agenda pwyllgor nesaf.*

6 MATERION FFYRDD AC AMGYLCHEDD

6.1 Dim i'w drafod.

6.2 Trafodwyd fod sgipiau yn dod i Llangernyw unwaith y mis dros dwy flynedd a hanner fel rhan o gynllun peilot gan CCBC. Angen gwneud defnydd o'r sgip gymunedol gan fod CCBC yn monitro'r sefyllfa. AV wedi cael trafferth trefnu llynedd a costau llogi'r sgipiau £666. DR yn codi fod arian wedi ei roi yn y presept llynedd ar gyfer sgip i Gwytherin a Phandy Tudur. Os oes galw a phobl yn cwyno, y teimlad oedd fod gan pawb fodd i fynd ac eitemau i Langernyw. Eitem yn y Gadlas bob mis o dan y tri pentref i hysbysu. *I'w roi ar agenda mis nesaf i'w drafod ymhellach.*

7 MATERION ARIANNOL

7.1 Mandad cyfrif banc y Cyngor – EW wedi rhaghysbysu ei bod yn mynd i'r banc cyn y cyfarfod nesaf.

7.2 Newid enw Cyfrif Cronfa Bro Cernyw – GD angen gyrru papurau'r cyngor i'r banc. Tynnu enw Elwen Owen oddi ar y dogfennau, wedi bod yn y banc efo'r llythyr. Wedi cael cadarnhad fod y newid wedi ei wneud, ond angen enw arall rwan fel correspondence. GD wedi gofyn i'r banc ysgrifennu iddo fo, aros am gadarnhad gan y banc fod popeth wedi mynd trwadd.

8 ADRODDIAD GAN Y CYNGHORYDD SIR

GLL: wedi sôn am y cŵn a'r heddlu uchod, Heledd o'r uned Cefn Gwlad wedi ymateb yn dda iawn, drwg deimlad wedi bod yn y pentref. Neges glir wedi mynd allan yn dilyn y digwyddiad.

Dim diddordeb am adeiladau'r Hen Efail yn yr ardal i gymeryd baich yr adeiladau ymlaen, ysgrifennu'n ôl at y perchennog i adrodd 'nôl.

Cludiant Cymunedol: wedi cael arian drwy uned Wledig CCBC, adroddiad am fesur y galw yn cael ei wneud yn Llangernyw, Pandy Tudur, Gwytherin a Llanfair TH, holiadur yn mynd i bob tŷ yn y pentrefi yn fuan. Bydd ceisiadau grant yn cael ei gwneud wedyn os bydd ymateb positif. Trefnu 3 lleoliad i'w casglu gan y trigolion.

GLL am wneud syrjyri yn y pentrefi hefyd – cyhoeddi dyddiadau yn ei gylchlythyr. Ifor Lloyd (Cyngorydd Llanfair TH) yn gwneud yr un fath..

GLL – holi AV os oedd arian y toiledau cyhoeddus wedi dod trwadd. *GLL i fynd ar ôl yr arian grant ar ran Menter Bro Cernyw.*

9 GOHEBIAETH

9.1 Cyfle i ddiweddarau arwyddion dehongli, gofyn am ateb erbyn diwedd y mis. Arwydd ger yr Eglwys yn Llangernyw. *Penderfynwyd yn dilyn trafodaeth fod CR a DR am fynd i weld yr arwydd dros y penwythnos ac ateb yr ohebiaeth gan Ela Williams cyn diwedd y mis.*

10 BILIAU

- 10.1** Torri mynwentydd £400, REW yn cynig talu, AV yn eilio.
- 10.2** Cyflog Enlli £82.97, DR yn cynnig, REW yn eilio.
- 10.3** CVSC – EW yn delio mis diwethaf, dim cais am arian eto.

11 MATERION LLEOL

REW – Pwyllgor Mynwentydd, Rheolau wedi eu arwyddo gan Dei Evans. REW wedi cadarnhau fod Asesiad Risg ar gyfer y mynwentydd wedi cael ei wneud ym mis Hydref 2018.

DR – Allt Tyn Pistyll – lle i dynnu mewn ond annodd iawn dod oddi yno, gweithwyr Cyngor wedi bod yno ond ddim byd wedi ei wneud. Gofyn i'r Cynogr godi'r mater. GLL wedi trafod y man pasio efo'r Cyngor Sir, ddim yn fan swyddogol i basio, CCBC ddim yn berchen ar y man pasio. *GLL am godi'r mater eto.*

Arwydd llwybr troed heibio Lodge Hafodunos wedi ei symud, ddim yna mwyach. Pont yn rhydd ac yn berygl ger Bethabara. Darn newydd ddim wedi asio a'r hen strwythyr.

Mynedfa Glan Collen – twll wedi ei lenwi, peipen Dŵr Cymru sydd wedi torri. Pryder yn lleol pryd fydd y gwaith yn mynd i gael ei wneud. GLL yn adrodd fod CCBC a Dŵr Cymru yn trafod rhyngthynt.

Report It i'w ddefnyddio ar gyfer y ddau fater.

Wal ger yr hen ysgol a'r bont fach wedi cychwyn dod i lawr yn Llangernyw. *Trafodaeth am berchnogaeth y wal, DR am holi Gwenda Cooper.*

AV – etholiad Ewrop 'fory, rhai trigolion Llangernyw wedi cael gohebiaeth i fynd i Gwytherin i bledleisio. Arolwg wedi ei wneud, dynodiad lleoliad yn ôl côd post. Trafodwyd fod llawer wedi cwyno am hyn. GLL wedi codi'r mater efo'r Cyngor Sir. AV yn gofyn os oedd modd gofyn am gopi o'r arolwg. *GLL am gysylltu â Lucy Steele ac adrodd yn ôl.*

Wedi bod yn plannu blodau ger y pwmp dŵr dros y ffordd â'r siop yn Llangernyw, pren o dan y tô wedi pydru. Cytunwyd i'w drwsio. CR am ofyn i Dyfrig Howatson wneud y gwaith. Llongyfarchwyd CR am ddod yn daid i Dafydd Henri.

CR – llwybr troed Hafodunos, Bethan Hughes wedi dangos lluniau fod llawer o ganghenau wedi dod lawr a stepiau wedi malu ar y llwybr. Kevin Roberts wedi ymgymryd a'r gwaith i glurio'r llwybr. Cais i'w wneud am arian i'r Cyngor Sir yn ôl-weithredol oherwydd fod y gwaith wedi ei gomisiynu ar frys gan fod y llwybr yn berygl fel ac yr oedd a sawl cynw yn dod i law. Giat y fywnent wedi cael eu thrwsio o'r diwedd. *CR i ofalu.*

Yswiriant y cyngor i'w drafod mis nesaf:

12 CYFARFOD NESAF

26^{ain} Mehefin 2019 7:30yh yn Llangernyw

Cyfarfod yn dod i ben 9:10pm

Cymerwyd y cofnodion gan Enlli Vaughan